



# TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES

## Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.

**21 Gorffennaf 2023**

09:30 – 1300

Lleoliad: Tŷ San Padrig, Hybrid

---

### Yn bresennol

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde, Marie Daly ac Alexia Course.

Hefyd yn bresennol: Stephanie Raymond (Eitemau 6-9), Andy Quinton (Eitem 9), Alison Thompson (Eitem 10), Nick Rowe (Eitem 10), Lewis Brencher (Eitem 12), Jeremy Morgan (Ysgrifennydd).

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### 1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Anfonodd Peter Strachan ei ymddiheuriadau.

### 1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

### 1c. Datgan Buddiant

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### 1d. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 23 Mehefin 2023 a nodwyd a diwygiwyd y Log Camau Gweithredu diweddaraf.

Darparwyd diweddariad byr ar ddiogelu a nodwyd y byddai un polisi ar draws y sefydliad yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys contractau ac is-contractwyr, a'i gyflwyno i'r Tîm Arwain Gweithredol.

## 2. Sylw i ddiogelwch

Tynnodd y Bwrdd sylw at ddiogelwch o ran y bwriad i ailadeiladu Pont Abermaw yn ddiweddarach eleni. Trafododd y Bwrdd fod angen sicrhau bod tocynnau'n cael eu gwirio ar wasanaethau bysiau yn lle trenau (**Cam Gweithredu – Jan Chaudhry Van Der Velde**).

## 3. Sylw i Gwsmeriaid

Tynnodd y Bwrdd sylw at gwsmeriaid o ran ymwybyddiaeth cwsmeriaid o weithredu diwydiannol a chydabod arferion da.

#### 4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau - Cyfnod 03

Derbyniodd a nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau a oedd wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod a rhoddodd sylw penodol i'r materion canlynol:

- Perfformiad Cyfnod 3 – gan gynnwys digwyddiadau allanol a phrinder cerbydau yn achosi problemau, newyddion cadarnhaol am drenau Class 197 yn dechrau cael eu defnyddio a llwybrau yn y dyfodol, gwaith ar [REDACTED] a'r angen i sicrhau bod hyfforddiant gyrwyr yn parhau i fod ar gael.
- Llinellau Craidd y Cymoedd – Gwaith Peirianeg a Seilwaith.
- Materion storio – gan gynnwys cadernid a hyblygrwydd gweithredol.
- Depo Treganna – cynllun i ddod yn fwy hunangynhaliol o ran gyrwyr, a materion sy'n ymwneud â gyrwyr yn cymhwyso ac yn gwneud cais am swyddi ar y prif reilffyrdd.

- Wrecsam-Bidston – yn cynnwys materion gyda threnau Class 230 a chychwyn archwiliad dwys, gan nodi argaeledd unedau, amser a gollwyd a materion eraill. Nodwyd y byddai Jan Chaudhry-Van der Velde yn y cab yr wythnos ganlynol i ddeall materion yn well.
- MkIVs – cwestiynu dibynadwyedd cerbydau a beth gellir ei wneud yn ei gylch.

#### 5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

#### 5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad sicrhau diogelwch a nododd berfformiad diogelwch da ar y cyfan a dim SPADs.

#### 5.3 Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

#### 6. Diweddariad masnachol

Ymunodd *Stephanie Raymond* â'r cyfarfod.

#### 7. Adolygiad ariannol

Nododd y Bwrdd yr adolygiad ariannol sydd wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod, gan gynnwys y sefyllfa alldro, y bylchau mewn swyddi gwag a allai achosi problemau, a rhywfaint o arbedion tanwydd wedi'u cynnwys ar y gyfran heb ei neilltuo.

## **8. Dadansoddiad gwell o'r llwybr teithio**

*Ymunodd Andy Quinton â'r cyfarfod.*

Derbyniodd a nododd y Bwrdd ddiweddariad a oedd yn nodi bod angen: ystyried sut byddai hyn yn effeithio ar wasanaethau; dechrau ei ddefnyddio i sbarduno gweithredu; a lleoleiddio elw a cholled i alluogi dealltwriaeth a chynllunio. Nodwyd bod gweithrediadau'n ddaearyddol nid yn ôl llinell llwybr, felly byddai hyn yn golygu bod angen amser i gael tyniant.

## **9. Cyllideb 24/25**

*Gadawodd Stephanie Raymond ac Andy Quinton y cyfarfod.*

## **10. Perfformiad AIW**

*Ymunodd Alison Thompson a Nick Rowe â'r cyfarfod.*

Derbyniodd a nododd y Bwrdd ddiweddariad ar Berfformiad AIW, gan gynnwys y cytundeb teiran rhwng AIW, TrC a Network Rail gyda phob un yn dwyn y lleill i gyfrif. Nodwyd bod gweithgorau penodol yn canolbwyntio ar wella perfformiad a gwaith a wneir gyda phobl leol, fel gwaith ar ddefnyddio 'pa 3 gair' i roi gwybod am ddigwyddiadau, gwell cyfathrebu ynghylch tarfu a gwaith ar dresmasu a diogelwch cyfansawdd.

O ran gwella perfformiad, nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar adnewyddu ffensys, rheoli llystyfiant, cydymffurfio â strwythurau, deall asedau, gwneud penderfyniadau ar sail data am wybodaeth leol a phenodi arbenigwr gwella busnes.

Trafododd y Bwrdd ac AIW nifer o heriau cyfredol. Mae mynediad at beirianeg yn her benodol, ond mae cynlluniau ar y gweill i liniaru hyn. Ystyriwyd hefyd berfformiad hanesyddol, darnau sbâr strategol a thargedau perfformiad, gan gynnwys sut byddai'r cynllun teiran yn gwella perfformiad.

*Gadawodd Alison Thompson a Nick Rowe y cyfarfod.*

## **11. Gatiau tocynnau**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

## **12. Diweddariad marchnata**

*Ymunodd Lewis Brencher â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd ddiweddariad marchnata, gan gynnwys bod y perfformiad cyffredinol ychydig yn uwch na'r targed, bod y digidol yn perfformio'n dda iawn, bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r system CRM marchnata, bod gwelliannau o ran lawrlwytho'r ap, gan gydbwysu effaith cynnwys pwynt prisiau a bod adborth blaenorol y Bwrdd wedi cael ei ymgorffori.

Trafododd y Bwrdd yr ap a sut mae'n cael ei hyrwyddo, gan nodi bod angen cynyddu defnyddwyr cofrestredig a gwella sut mae data'n cael ei ddefnyddio.

*Gadawodd Lewis Brencher y cyfarfod.*

### **13. Diweddariad Amserlen 2024**

### **14. Unrhyw Fater Arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

Daeth y cyfarfod i ben a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.